Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Datganoli a'r Goruchaf Lys

Hysbysiad Hwylus — Hydref 2013

## Cyflwyniad

Sefydlwyd Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig gan Ran 3 o *Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005* a daeth i rym ar 1 Hydref 2009. Mae gan y Goruchaf Lys awdurdodaeth mewn cysylltiad â materion datganoli o dan *Ddeddf yr Alban 1998, Deddf Gogledd Iwerddon 1988* a *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*. Cawsant eu trosglwyddo i'r Goruchaf Lys gan Bwyllgor Barnwrol y Cyfrin Gyngor.[1]

## Materion Datganoli

Mae gan y Goruchaf Lys awdurdodaeth i glywed a phenderfynu ar "faterion datganoli", sef cwestiynau sy'n ymwneud â phwerau a swyddogaethau deddfwrfeydd a llywodraethau a sefydlwyd yn yr Alban gan *Ddeddf yr Alban 1998* a Gogledd Iwerddon gan *Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998*, a chwestiynau o ran cymhwysedd a swyddogaethau a sefydlwyd gan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*[2], p'un a yw'r materion yn codi mewn trafodion yng Nghymru a Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon neu beidio.

Gellir hefyd ofyn i'r Goruchaf Lys graffu ar Filiau Senedd yr Alban (o dan adran 33 o *Ddeddf yr Alban*), Biliau Cynulliad Gogledd Iwerddon (o dan adran 11 o *Ddeddf Gogledd Iwerddon*) a Biliau arfaethedig y Cynulliad o dan adran 112 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Gall achosion o'r fath gyrraedd y Goruchaf Lys drwy bedair ffordd.

- Drwy gyfeirio cwestiwn gan swyddog perthnasol (e.e. y Twrnai Cyffredinol neu'r Cwnsler Cyffredinol).
- Drwy apêl gan rai uwch lysoedd yng Nghymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Drwy gyfeirio mater datganoli gan rai llysoedd apeliadol.
- Drwy gyfeirio mater datganoli yn uniongyrchol gan swyddog perthnasol, p'un a yw'r mater yn destun ymgyfreitha neu beidio. [3]

[1] Supreme Court, *A Guide to bringing a case to the Supreme Court* [fel ar 3 Hydref 2012]
[2] *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (p.32)
[3] Y Goruchaf Lys, UKSC Practice Direction 10, *Devolution Jurisdiction* [fel ar 4 Hydref 2012]

## Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Mae adran 112 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu system lle gall naill ai'r Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol gael penderfyniad gan y Goruchaf Lys o ran a yw Bil y Cynulliad neu ddarpariaethau penodol Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Gellir ond gwneud hyn o fewn y cyfnod o **bedair wythnos** gan ddechrau gyda'r dyddiad y pasiwyd y Bil gan y Cynulliad neu, yn achos Bil sydd wedi cael ei ailystyried a'i gymeradwyo gan y Cynulliad, yn dechrau gyda'r dyddiad y cafodd y Bil ei gymeradwyo gan y Cynulliad.

Os yw'r Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol yn hysbysu'r Clerc yn ffurfiol na fydd yn gwneud cyfeiriad o'r fath bydd yna'n cael ei wahardd rhag cyfeirio ar ôl hynny (oni bai bod y Bil wedi'i **ailystyried** a'i gymeradwyo ar ôl hynny).

Mae adran 149 yn rhoi effaith i Atodlen 9, sy'n gwneud darpariaeth fanwl am y penderfyniad ar faterion datganoli. Mae paragraff 1 o'r Atodlen yn diffinio "materion datganoli" i gynnwys cwestiynau o ran cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â Deddfau a basiwyd ganddo a chymhwysedd gweithredol Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn cynnwys methiannau honedig gan Lywodraeth Cymru i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan gyfraith y Gymuned Ewropeaidd, neu Gonfensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Gall y Twrnai Cyffredinol neu'r Cwnsler Cyffredinol gychwyn trafodion yng Nghymru a Lloegr ar gyfer penderfynu ar fater datganoli. Gall y Cwnsler Cyffredinol amddiffyn unrhyw drafodion a gychwynnwyd gan y Twrnai Cyffredinol. Nid yw hyn yn atal pobl eraill rhag cyflwyno neu amddiffyn trafodion o'r fath, ond pan fyddant yn gwneud hynny rhaid rhoi gwybod i'r Twrnai Cyffredinol a'r Cwnsler Cyffredinol am y trafodion, ac mae hawl ganddynt i gymryd rhan ynddynt. Mae gan y Twrnai Cyffredinol a'r Cwnsler Cyffredinol bŵer cyffredinol i fynnu bod llysoedd a thribiwnlysoedd yn cyfeirio materion datganoli mewn achosion y maent yn rhan ohonynt ar y Goruchaf Lys.

## Dyfarniad y Goruchaf Lys AXA v Lord Advocate

Ym mis Hydref 2011, cyhoeddodd y Goruchaf Lys ei ddyfarniad yn achos AXA General Insurance Limited and others (Appellants) v The Lord Advocate and others (Respondents) (Scotland). Roedd yr achos yn ymwneud â her gyfreithiol i *Ddeddf Iawndal (Cyflyrau yn Ymwneud ag Asbestos) (Yr Alban) 2009*, sef un o Ddeddfau Senedd yr Alban. Mae'r Ddeddf yn darparu bod placiau plewrol asymptomatig, tewhau plewrol ac asbestosis i'w cyfrif yn niwed cyfreithadwy at ddibenion achos ar gyfer iawndal am niwed personol a bod yr effeithiau hynny i'w trin fel petaent wedi bod yn niwed cyfreithadwy erioed. Effaith y Ddeddf, yn yr Alban, oedd gwrthdroi dyfarniad Tŷ'r Arglwyddi (a hwythau'n eistedd fel barnwyr) yn achos Rothwell v Chemical & Insulating Co Ltd. Barn y Tŷ oedd nad oedd yr effeithiau hynny yn niwed cyfreithadwy ac felly na allent fod yn destun hawliad ar gyfer iawndal am niwed personol.[4]

Roedd y dyfarniad yn arwyddocaol i'r cyrff datganoledig o ran bod dilysrwydd y Ddeddf Albanaidd yn cael ei herio ar sail y gyfraith gyffredin. Dadleuodd yr apelwyr (cwmnïau yswiriant) fod Deddfau Senedd yr Alban yn agored i adolygiad barnwrol ar sail eu bod yn ddefnydd afresymol, afresymegol neu fympwyol o'r awdurdod deddfwriaethol a roddwyd i Senedd yr Alban gan *Ddeddf yr Alban 1998*. Dywedodd Arglwydd Dirprwy Lywydd y Goruchaf Lys, yr Arglwydd Hope:

[4] **Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet gan Theodore Huckle CF, y Cwnsler Cyffredinol, *Dyfarniad y Goruchaf Lys - AXA v Lord Advocate*, 12 Hydref 2011 [fel ar 4 Hydref 2012]**

> the question as to whether Acts of the Scottish Parliament and measures passed under devolved powers by the legislatures in Wales and Northern Ireland are amenable to judicial review, and if so on what grounds, is a matter of very great constitutional importance.[5]

Yn ei brif ddyfarniad, penderfynodd yr Arglwydd Hope "Acts of the Scottish Parliament are **not** subject to judicial review at common law on the grounds of irrationality, unreasonableness or arbitrariness" [*pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil*]. Ond os yw deddfwrfa ddatganoledig yn mynd yn groes i reolaeth y gyfraith (e.e. diddymu adolygiad barnwrol neu leihau rôl y llysoedd wrth amddiffyn buddiannau unigolion) mae'r Arglwydd Hope o'r farn y byddai'n bosibl dal bod Deddf gan y ddeddfwrfa honno yn anghyfreithlon. Yna dywedodd:

> while there are some differences of detail between the Scotland Act 1998 and the corresponding legislation for Wales and Northern Ireland, these differences do not matter for present purposes. The essential nature of the legislatures that the legislation has created in each case is the same.[6]

Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

> Mae'n amlwg bod croeso mawr i'r dyfarniad hwn. Mae'n gosod cyfyngiadau sylweddol ar y seiliau y gallai'r llysoedd fod yn fodlon eu defnyddio i ystyried adolygu Deddfau Senedd yr Alban. Mae o arwyddocâd mawr i'r setliad datganoli yng Nghymru.[7]

## Cyfeirio Biliau

Ym mis Gorffennaf 2012, cyfeiriodd y Twrnai Cyffredinol, y Gwir Anrhydeddus Dominic Grieve AS, *Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)*[8] at y Goruchaf Lys. Ym mis Tachwedd 2012, roedd y Goruchaf Lys yn unfrydol o'r farn bod y Bil o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru[9].

Cafodd ail Fil Cynulliad*, Bil Sector Amaethyddol (Cymru),* ei gyfeirio at y Goruchaf Lys ym mis Awst 2013.

*Cyfeiriwyd Bil Iawndal (Cyflyrau yn Ymwneud ag Asbestos)* gan Dwrnai Cyffredinol Gogledd Iwerddon at y Goruchaf Lys ym mis Ebrill 2011. Daeth dyfarniad "Achos Axa" ym mis Hydref 2011 a gan fod Apêl yr Alban a Chyfeiriad Gogledd Iwerddon yn gorgyffwrdd yn sylweddol, tynnodd y Twrnai Cyffredinol ei Gyfeiriad yn ôl.[10]

Nid oes unrhyw un o Filiau Senedd yr Alban wedi'u cyfeirio at y Goruchaf Lys o dan adran 33 o *Ddeddf yr Alban 1998* cyn iddynt gael eu deddfu.

---

[5] **Y Goruchaf Lys, Dyfarniad, *AXA General Insurance Limited and others (Appellants) v The Lord Advocate and others (Respondents) (Scotland)*, UKSC 46, 12 Hydref 2011 [fel ar 4 Hydref 2012]**
[6] Ibid.
[7] **Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet gan Theodore Huckle CF, y Cwnsler Cyffredinol, *Dyfarniad y Goruchaf Lys - AXA v Lord Advocate*, 12 Hydref 2011 [fel ar 4 Hydref 2012]**
[8] ***Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012* [fel ar 4 Hydref 2012]**
[9] ***Datganiad Ysgrifenedig, y Prif Weinidog (y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC), Dyfarniad y Goruchaf Lys – Cyfeirio Bil Is-Ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)*  21 Tachwedd 2012 [fel ar 16 Hydref 2013]**
[10] **Twrnai Cyffredinol Gogledd Iwerddon, *Attorney General welcomes Supreme Court decision*, Datganiad i'r Wasg, 12 Hydref 2011 [fel ar 4 Hydref 2012]**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

# Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **Ddatganoli a'r Goruchaf Llys**, cysylltwch ag **Alys Thomas** (**alys.thomas@cymru.gov.uk**), **y Gwasanaeth Ymchwil.**

**Gweler hefyd:**

- Hysbysiad Hwylus **Cyfres y Cyfansoddiad: 9 – Deddfau'r Cynulliad a'r Broses Ddeddfu**
- Hysbysiad Hwylus **Cyfres y Cyfansoddiad: 10 – Pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol**
- Hysbysiad Hwylus **Ailystyried Biliau'r Cynulliad a basiwyd**
- **Y Goruchaf Lys**

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **assemblywales.org/research**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@cymru.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Rhif ymholiad: 12/2599**
Alys Thomas